# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Agenda (SLC (3)-03-09)

**Dyddiad: 3 Chwefror 2009**
**Amser : 8.15am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

### Eitem 2: Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

### Eitem 2.1: Offerynnau drafft sy'n agored i gael eu cymeradwyo yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn gadarnhaol)

SLC239 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Ffioedd Chwiliadau Eiddo) (Cymru) 2009

Y weithdrefn gadarnhaol. Fe'u gwnaed ar ... Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

Mae'r Rheoliadau hyn yn caniatáu i awdurdodau lleol godi ffioedd am wasanaethau a ddarperir mewn cysylltiad â chwiliadau eiddo, yn benodol mynediad i gofnodion eiddo ac ateb ymholiadau ynghylch eiddo.

Mae'r Rheoliadau yn dirymu, o ran eu cymhwyso i Gymru, Reoliadau Awdurdodau Lleol (Ffioedd Chwiliadau Tir) 1994

### Eitem 2.2: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC235 - Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynorthwywyr i Grwpiau Gwleidyddol) (Tâl) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 14 Ionawr 2009. Fe'i gosodwyd ar 19 Ionawr 2009. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2009

Mae'r Gorchymyn hwn yn nodi'r mwyafswm sy'n daladwy i gynorthwywyr grwpiau gwleidyddol drwy gyfeirio at bwynt penodol ar raddfeydd cyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer swyddogion llywodraeth leol. Dirymir y Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynorthwywyr i Grwpiau Gwleidyddol) (Tâl) mewn perthynas ag awdurdodau lleol yng Nghymru.

SLC236 - Rheoliadau Swn Amgylcheddol (Cymru) (Diwygio) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 15 Ionawr 2009. Fe'u gosodwyd ar 19 Ionawr 2009. Yn dod i rym ar 9 Chwefror 2009

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Swn Amgylcheddol (Cymru) 2006 ("Rheoliadau 2006") sy'n trosi Cyfarwyddeb 2002/49/EC ynghylch asesu a rheoli swn amgylcheddol. Mae'r diwygiadau i Reoliadau 2006 yn cynnwys mewnosod/diwygio nifer o ddiffiniadau, caniatáu i ffynonellau swn a nodwyd ar gyfer mapio swn yn y dyfodol gael eu cyhoeddi ar ffurf mapiau, caniatáu i ardaloedd tawel gael eu nodi fel rhan o broses y cynlluniau gweithredu ar gyfer crynodrefi, rhoi i Weinidogion y pwer i wneud mapiau swn cyfunol a disodli dyletswydd Gweinidogion i gyhoeddi canllawiau ar gyfer cynlluniau gweithredu gyda phwer i wneud hynny.

SLC237 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 19 Ionawr 2009. Fe'u gosodwyd ar 20 Ionawr 2009. Yn dod i rym ar 10 Chwefror 2009

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007 ("y prif Reoliadau"). Mae'r prif Reoliadau yn gwneud darpariaeth fel bod pobl sydd naill ai'n cael budd-daliadau penodol oddi wrth y wladwriaeth neu sydd ar incwm isel yn cael peidio â thalu taliadau penodol neu gael ad-daliad ohonynt, a'r taliadau hynny fel arall yn daladwy o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("taliadau GIG") a chael taliad am dreuliau teithio a dynnwyd wrth gael gwasanaeth GIG penodol ("treuliau teithio GIG"). Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau i wneud rhagor o addasiadau i Reoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987 mewn perthynas â'r modd yr ymdrinnir â'r lwfans cyflogaeth a chymorth at ddibenion cyfrifo pwy sy'n gymwys o dan y Cynllun Incwm Isel. Drwy hynny, sicrheir bod cymorth tuag at gostau'r GIG yn parhau i fod ar gael i bawb yn ddiwahân.

SLC238 - Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Ffioedd Chwiliadau Eiddo) (Datgymhwyso) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 19 Ionawr 2009. Fe'i gosodwyd ar 21 Ionawr 2009. Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

Mae'r Gorchymyn hwn yn datgymhwyso, mewn cysylltiad â chynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru, adran 93(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 mewn cysylltiad â chwiliadau eiddo penodol. Mae adran 93(1) yn caniatáu i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol godi ffi am wasanaethau a bydd datgymhwyso yn galluogi i'r rheoliadau ddod o dan adran 150 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 i ganiatáu codi ffi am wasanaethau a ddarperir mewn cysylltiad â chwiliadau eiddo mewn cysylltiad â mynediad i gofnodion eiddo ac ateb ymholiadau ynghylch eiddo. Pe na bai adran 93(1) yn cael ei datgymhwyso, caniateid codi ffi ddim ond o dan

adran 150 mewn cysylltiad âg unrhyw beth nad oes unrhyw bwer neu ddyletswydd i godi ffi mewn cysylltiad ag ef ac eithrio o dan y rheoliadau a wnaed o dan adran 150.

SLC241 - Rheoliadau Addysg (Ysgolion Arbennig a Gynhelir) (Cymru) (Diwygio) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 16 Ionawr 2009. Fe'u gosodwyd ar 19 Ionawr 2009. Yn dod i rym ar 9 Chwefror 2009

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Ysgolion Arbennig a Gynhelir) (Cymru) 1999 i ganiatáu i ddisgybl chweched dosbarth dynnu'n ôl o addoliad crefyddol mewn ysgol arbennig os dyna'i ddymuniad.

### Eitem 3: Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru)

SLC(3)-03-2009(p1) – Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru)

SLC(3)-03-2009(p2) – Memorandwm Esboniadol i'r Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru)

SLC(3)-03-2009(p3) – Adroddiad Cynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ar y Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru)

### Caiff y pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi):

Caiff pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw

ran o gyfarfod:

(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi.

### Eitem 4: Ehangu'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth: Ymchwiliad i'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig – ystyried y materion allweddol

SLC(3)-03-09(p4) - Ymchwiliad i'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig: y materion allweddol

### Papurau i'w nodi: Ymatebion gan pwyllgorau craffu a Swyddfa Cymru

### Eitem 5: Unrhyw fater arall

### Eitem 6: Dyddiad y cyfarfod nesaf